

Cenn@d

EBRILL 17 2024

YN CYNNWYS Y GOLEUAD A SEREN CYMRU RHIF 164

'Am fod y Pasg werth ei ddathlu'



Ar fore Sul y Pasg ar gae rygbi Blaenau Ffestiniog fe gafwyd diwrnod llawn hwyl wedi ei gynnis gan gymuned Gristnogol newydd Craig Blaenau i drigolion yr ardal.

Meddai Jos Edwards ar ran y rhai oedd yn trefnu:

'Gwych oedd gweld cymaint o blant a theluoedd yn cael amser mor dda! Roedd yna bum cant wedi dod. Roedd yna ddigon o fwyd i fwydo tua 350 wedi ei brynu mewn ffydd ac ar sail ein profiad yn trefnu digwyddiad tebyg y llynedd a'r cyfleoedd a gafwyd i weithio yn y gymuned ar hyd y flwyddyn. Fe gafodd pawb rywfaent ac fe aeth y cyfan ohono. Ynghanol y gweithgareddau i gyd roedd hi'n fraint cael rhannu neges o fywyd newydd y Pasg a chael bendithio'r gymuned fel hyn.

'Cynigiwyd y cyfan am ddim oherwydd bod Sul y Pasg yn diwrnod MOR anhygoel ac yn werth ei ddathlu – roeddem ni am i bawb gael profi hynny! Diolch i bawb a ddaeth, i'r tîm i gyd am helpu ac i bawb a gyfrannodd at lwyddiant y digwyddiad. Ond mae'r diolch mwyaf i'r Arglwydd am reswm mor gryf i ddathlu'r Pasg – ei groes a'i atgyfodiad er ein mwyn.'

Mae Jos a Lydia Edwards yn derbyn nawdd tuag at y genhadaeth hon drwy gynllun arloesi Eglwys Bresbyteraidd Cymru yn Henaduriaeth Gorllewin Gwynedd.

Roedd y digwyddiad a'r ymateb i'r gwaith sydd wedi bod yn digwydd yn enw Craig Blaenau hyd yma yn cadarnhau'r angen a'r alwad i gynnis addoliad cyson yn y dref. Bydd 'Capal Craig', gwasanaeth teuluol newydd, yn cael ei lansio yn mis Mai yn y clwb rygbi. Dymunwn fendith y nef iddynt yn y fenter hon.

(Gol. HP-D)



Dathlu'r Pasg yng Nghylch Carn Inqli
Tudalen 4

Gair Duw ar Waith
Tudalen 6

Tro i Lanfyllin
Tudalen 8

'Rwy'n gweld o bell y dydd yn dod'

Rwy'n un o'r bobl hynny sydd wedi fy mendithio â chyflwr sy'n peri fy mod angen sbectol i weld pethau yn agos, gyda lensys biffocal go drwchus. Hebddydd nhw dwi fawr o iws i fi fy hun na neb arall, deud y gwir. Ond plws arall i hyn yw fy mod yn gallu gweld ymhell i'r gorwel. Does dim yn well na gallu gwneud hynny wrth grwydro yn yr awyr agored a chanfod rhyfeddodau o'm cwmpas ymhobman. Heb y sbectol dwi'n gweld fawr ddim yn eglur – ond gyda nhw mae popeth i'w weld yn glir.


Cefais sgwrs ddiifyr yn ddiweddar ynglŷn â'n cyflwr ysbrydol yma ym Môn, yn wyneb y ffaith fod yna'r fath ddirywiad ar droed sy'n carlamu bellach. Cofiwch chi, tydi cydnabod hynny ddim yn rhywbeth newydd gan fod y peth yn fwy cyffredin ar draws yr enwadau nag yr hoffwn ei gydnabod yn aml iawn. Ydw i'n swnio'n ddigalon? Wel, nac ydw, a deud y gwir, oherwydd fe gafodd yr hyn sydd wedi dod i fwcl ei ddargogan wrth griw o ddarpar weinidogion gan yr annwyl Barchedig Tom Nefyn Williams, bron ganrif yn ôl erbyn hyn. Dywedodd wrthyn nhw mewn seiat *pastoralia* y gwelent ddirywiad enfawr mewn aelodaeth a phresenoldeb ar y Sul yn ystod eu cyfnod hwy o wasanaethu. Bellach y mae'r peth yn ffaith.

Yn ystod y degawdau diwethaf rydym fel enwadau, am resymau trefniadol, ariannol ac o safbwynt stiwardiaeth Gristnogol, wedi penderfynu cael gwared o'n hasedau o sawl ffenest siop. Gwelsom ddod ag addysg drwy ein colegau diwinyddol i ben neu'n cael ei throsglwyddo i golegau eraill. Gwelsom ollwng gafael i raddau ar leoliadau arbennig megis Coleg Trefeca. Mae'r un peth yn bosib o safbwynt Coleg y Bala, er nad oes neb ohonom ar lawr daear yn gwybod ar wahân i'r rywrai beth fydd tynged y lle arbennig hwnnw gyda hyn. Y gwir yw fod yn rhaid torri'r brethyn yn ôl y galw, a does gan y sefydliadau hyn mwy nag unrhyw gapel warant dwyfol i barhau am byth! Tebyg eich bod chi'n synnu braidd wrth fy nghlywed i'n dweud hynny, fel cyn-Gaplan / Swyddog leuenctid i'r Cyfundeb. Ond dyna realiti ein sefyllfa erbyn hyn.

Rwy'n casáu'r gair 'cyn ...' yma ym mherthynas rhai sydd wedi derbyn galwad i wasanaethu Crist, boed mewn unrhyw weinidogaeth – lleyg neu ordeiniedig. Mae'n awgrymu fod yna ryw

pecking order ym mêr esgyrn ac enaid ein henwadau, jest i atgoffa pobl o'u lle yn y drefn seciwlar eglwysig. Os ydan ni wedi ein hordeinio am oes, gan mai dyna a ddywedwyd wrthon ni, sut medrwn ni fod yn 'gyn' ddim byd yng ngolwg Crist?

Beth bynnag, gobeithiaf i chi fwynhau dathliadau'r Pasg eleni, lle bynnag yr oeddech yn dathlu – adre yneich gofalaeth neu mewn gŵyl Gristnogol, boed ymysg dau neu dri, neu rai cannoedd. Gobeithio i chi deimlo presenoldeb Crist yn eich plith oherwydd, beth bynnag fo'n cyflwr ni ar lawr daear, mae'r Pasg yn ein hatgoffa'n drawiadol iawn fod Crist yn wir gyda ni, yn ein gwendid a'n llwyddiannau, ac mai ein priod ddyletswydd yw gwneud popeth posib i'w blesio fel ein Harglwydd byw.



Credaf yn y Crist sy'n barod i argymell ffordd newydd inni – ar yr aelwyd, ar ein haelwyd ysbrydol ac yn ein lleoliadau gwaith a hamdden. Hynny yw, mae'r Crist cyflawn eisiau i ninnau fod yn Gristnogion cyflawn. Cyflawn a chrwn – nid hunangyfiawn ac unllwygeidiog, gan y gall hunangyfiawnder mewn arweinyddion eglwysig fod yn bechod dinistriol ac yn faen tramgwydd i unrhyw newid.

Credaf fod Crist yn barod i'n hargyhoeddi eto fyth o werth ein cenadaethau yn lleol a'n galwadau i wasanaethu yn y deyrnas. Rydym yn ein cael ein hunain yn gwasanaethu mewn cyfnod lle nad yw Duw yn cyfrif ryw lawer ym meddyliau pobl. Mae'r rhan fwyaf o bobl, gan gynnwys amryw o fewn ein cynulleidfaoedd, yn amharod i gael eu hargyhoeddi o werth gweinidogaeth Crist ac aberth y groes a'r atgyfodiad iddyn nhw.

Credaf fod Crist yn barod i'n cyngori. Un llinyn arian sy'n rhedeg drwy'r Efengylau

a'r Epistolau yw'r geiriau, 'Y sawl sydd â chlustiau ganddo, gwrandawed beth y mae'r Ysbryd yn ei ddweud wrth yr eglwysi' (Datguddiad 2:7). Trwy gydol yr Epistolau rhoddir cyfarwyddiadau i eglwysi unigol ynglŷn â'r newidiadau sydd angen eu gwneud i'r eglwys honno fyw a chenhadu'n effeithiol. Wrth inni ddod at eingilydd i addoli a thystiolaethu, gweddio a moli Duw, cawn deimlo Duw yn agos, Iesu yn gwmni a'r ysbryd yn cyffwrdd ein calonnau – ein cyffwrdd fel teulu Duw ac fel unigolion.

Credaf hefyd yn y Crist sy'n barod i gysuro a chanmol. Droeon yn yr Efengylau clywn Iesu yn cyngori ei ddisgyblion i fod â ffydd yn eu cenhadaeth, a pheidio â chael eu llethu gan broblemau, rhwystredigaethau ac anawsterau. Ceisiodd eu harghyhoeddi mai bywyd buddugoliaethus yw ein bywyd yn y ffydd. Ond fe aeth yn bellach na hynny hyd yn oed; ceisiodd eu cysuro â gobaith pe baent yn gorfod wynebu marwolaeth neu farw heb weld gogoniant Duw ar waith yn eu gwlad. Trwy ei farw ar y groes a'i atgyfodiad anhygoel, cawn ninnau fel hwythau ein hargyhoeddi ym modolaeth y bywyd tragwyddol i bawb sy'n credu ynddo.

Sut bynnag y bydd pethau, bydd Iesu gyda ni i'n harwain a'n tywys – weithiau'n canmol, dro arall yn ceryddu – a'r cyfan mewn cariad. Addawodd fod gyda ni ar hyd y daith, pan fo'r eglwysi'n mwynhau'r heulwen neu'n cuddio yn y cysgodion. Bydd gyda ni yn ein cryfder a'n gwendid, yn wyneb pob her ac ar flaen y gad ym mhob menter newydd.

Rhywbeth gwerthfawr tu hwnt yw addewid Iesu y bydd gyda ni bob amser. Nid rhyw ffics y funud mohono i'n bodloni gyda'r *status quo* na magu cydwybod dihid yn wyneb dirywiad crefyddol. Rydw i'n argyhoeddiedig o'r alwad sydd arnom i'n rhoi ein hunain heb ddal dim yn ôl yn ein haddoliad a'n gwasanaeth i Dduw. Felly, yng ngeiriau cyfeithiad W. Rhys Nicholas o waith J. S. B. Monsell:

Rhed yrfa gref drwy ras y Nef,
Cod olwg fry i'w weled ef;
Bywyd a'i her sydd iti'n dod
Crist yw y ffordd a Christ yw'r nod!

Ble rois i'r sbectol yna cyn mynd i glwydo neithiwr? O ie, dyma hi – gwydrau fy Ngwaredwr! Mi fedra i weld yn llawer pellach eto heddiw, gobeithio. Ond biti garw na allwn i weld y tu hwnt i'r gorwel. Da bo'ch!

Jim Clarke
Llanfair-pwll

Croeso i Gymdeithasfa'r Gogledd – Berea Newydd, Bangor, 23 Ebrill

Braint i Henaduriaeth Arfon yw estyn croeso i'r Gymdeithasfa yn y Gogledd unwaith eto. Cynhelir y Gymdeithasfa yng nghapel Berea Newydd, Bangor, ar 23 Ebrill. Er y bydd modd ymuno yn yr eisteddiadau ar Zoom, hyderwn y daw nifer dda o'r mynychwyr atom i Fangor.

Yn hydref 2019 yr ymwelodd y Gymdeithasfa â'r Henaduriaeth ddiwethaf, ac yng nghapel Berea Newydd y cynhaliwyd yr eisteddiadau bryd hynny hefyd. Y bwriad y tro hwn oedd cyfarfod yng Nghaernarfon ond, yn anffodus, nid oedd hynny'n bosibl.

Un o uchafbwyntiau Cymdeithasfa'r gwanwyn yn ddiethriad yw llongyfarch gweinidogion a blaenoriaid sy'n dathlu deugain, hanner cant neu drigain mlynedd (a mwy) eu hordeiniad. Eleni, llongyferchir tri gweinidog a 26 o flaenoriaid, gan gynnwys tri blaenor a ordeiniwyd i'r weinidogaeth yn ddiweddarach. Mawrygwn eu gwasanaeth a'u hymroddiad dros y blynyddoedd ac edrychwn ymlaen at weld amryw ohonynt ym Merea Newydd.

Croeso mawr, felly, i bawb i'r Sasiwn. Darperir cinio a the, a dylai'r cynrychiolwyr a'r gwahoddedigion fod



eisoes wedi hysbysu'r swyddogion lleol o'u hanghenion.

Gweddian am fendith ar yr holl weithgareddau a dymunwn yn dda i'r Ysgrifennydd newydd, y Parchg Huw Powell-Davies, ac i Mrs Meinir Lloyd Jones, Penrhyndeudraeth, fydd yn dod i gadair y Llywydd.

*Y Parchg Ddr Elwyn Richards
Ysgrifennydd Henaduriaeth Arfon*

Capel Berea Newydd, Rhodfa Dewi Sant, Bangor LL57 2AX

Os ydych yn dod yn y car, gyrrwch heibio Ysbyty Gwynedd ar hyd Ffordd Penrhos, a dal ati hyd y gwelwch gylchfan fach o'ch blaen cyn cyrraedd allt Penchwintan. Mae'r tro i'r capel ar y dde, tua 25 metr cyn cyrraedd y gylchfan. Mae arwydd yn cyfeirio ato ar ochr chwith y ffordd.

Cynhadledd Flynyddol Fforwm Ffydd

Mae'n wanwyn unwaith eto a dyma gymryd y cyfle i gyhoeddi dyddiad Cynhadledd Flynyddol Fforwm Ffydd (Undeb Athrofa'r Bala, gynt) yn Eglwys Unedig Seilo, Llandudno, ddydd Mawrth, 14 Mai.

Ein thema eleni fydd 'Cenhadu ac Arloesi' ac edrychwn ymlaen at groesawu dau ddiwinydd praff a disglair atom. Mae'r Parch. Glyn Tudwal Jones, Caerdydd, wedi treulio'i oes yn y weinidogaeth, ac mae'r Bnr Corey Hampton, yr Wyddgrug, â'i fryd ar y weinidogaeth ac ar hyn o bryd yn gweithio fel Galluogwr Cenhadol yn Henaduriaeth y Gogledd-dwyrain.

Teitl gogleisiol darlith y Parch. Glyn Tudwal Jones fydd 'Maen ar Faen', a bydd Corey Hampton yn trafod 'Cenhadaeth mewn Oes Seciwlwr – y tu hwnt i Fewnfodaeth'. Bydd cyfle yn sesiwn y prynhawn i gael trafodaeth agored yng nghwmni'r ddau ddarlithydd.

Bydd y gynhadledd yn dechrau am 9.45a.m. a bydd y tâl mynediad yn parhau'n £5 er gwaethaf chwyddiant! Edrychwn ymlaen at gynhadledd ddiddorol a bywiog. Croeso cynnes i bawb o bob enwad.

Am fanylion pellach, cysylltwch â'r Ysgrifennydd: Y Parch. Megan Williams, e-bost: megan.maescaled@btinternet.com; ffôn: 01248 713863; ffôn lôn: 07837345776

CAPEL BETHEL, TAL-Y-BONT

CYMANFA

GANU

Unedig Gogledd Ceredigion

Dydd Sul 28 Ebrill am 10 a 5.30

Arweinydd y bore:
Mrs Helen Medi Williams

Arweinydd yr hwyr:
Mrs Delyth Hopkins Evans

Oedfa'r bore gyda
Theulu MacDonald, Patagonia

Dathlu'r Pasg yng Nghylch Carn Inglï



Plant Ysgol Sul Cylch Carn Inglï'n cyflwyno eitem



Ieuenctid Cylch Carn Inglï'n cyflwyno 'Hawl i Fyw'



Teleri Wilson, llywydd yr oedfa, a Ceirios Jenner, yr arweinydd gwadd

Bydd Cymanfa Ganu Cylch Carn Inglï yn symud o gwmpas y cylch bob blwyddyn, ac eleni tro eglwys Jabes, Cwm Gwaun, oedd hi i agor ei drysau. Braff iawn oedd gweld tyrfa arbennig o dda, o bob oedran, wedi dod ynghyd ar fore Sul y Pasg. Ers inni ailgydio yn yr arfer yn dilyn y cyfnod clo, un oedfa ar gyfer pob oed sydd wedi cael ei chynnal, ac felly y bu eleni.

Ceirios Jenner, sy'n adnabyddus fel arweinydd côr Corlan, oedd yr arweinydd gwadd. Estynnwyd croeso cynnes iddi hi ac i bawb gan lywydd yr oedfa, Teleri Wilson, un o bobl ifainc Jabes.

Cyn dechrau ar y canu, cyflwynwyd y rhannau arweiniol gan ddwy fam ifanc o Jabes, Eleri Morgans a Sara Grim.

Cafwyd canu ysbrydoledig gan yr oedolion a'r plant drwy gydol yr oedfa. Nid unwaith na dwywaith y clywyd yr arweinyddes yn canmol safon y canu, yn arbennig y canu pedwar llais. Canmolwyd hefyd y dewis o emynau gan y pwyllgor, a'r cyfeilio gan Gwenno Eynon a Gareth James, ac Eleri Morgans ar y ffidil.

Ychwanegwyd at gyfoeth yr oedfa gan ddwy eitem arbennig iawn. Oddi ar y Nadolig roedd plant yr ysgol Sul wedi bod yn

dysgu am ffrindiau Iesu a galw'r deuddeg disgybl. Pleser pur oedd gwranddo arnynt yn cyflwyno, gyda graen, gerdd am y deuddeg disgybl a chân am Pedr ac Ioan yn iacháu'r claf wrth borth y deml. Roedd y plant yn amlwg wrth eu bodd, a diolchwyd i Marian, Menna a Bonni am eu dysgu o Sul i Sul ac i Gwenno am gyfeilio.

Trefnu eu heitem eu hunain wnaeth pobl ifainc y cylch, a gwefreiddiwyd y gynulleidfa gan eu cyflwyniad argyhoeddedig o 'Hawl i Fyw'. Prin oedd y llygaid sych yn y gynulleidfa! Pob clod yn wir i'r ieuenctid a'r ddwy gyfeilyddes, Teleri Wilson ar yr allweddellau ac Alaw Thomas ar y gitâr.

Diolchwyd i bawb am oedfa arbennig iawn gan gadeirydd y pwyllgor, y Parchg Alwyn Daniels, a derbyniodd y plant a'r bobl ifainc wy Pasg yr un yn rhodd gan y pwyllgor.

Ie, un oedfa oedd hi, ond un oedfa arbennig dros ben i ddathlu Atgyfodiad Crist.

Bonni Davies

Newyddion Noddfa, Llanbedr Pont Steffan

Dydd Sul, 24 Mawrth, cynhaliwyd oedfa arbennig yn Noddfa dan ofal yr ysgol Sul. Lluniwyd yr oedfa gan Janet, a braff oedd gweld cynulliad teilwng wedi dod ynghyd. Mewn pennill a chân bu'r plant a'r bobl ifanc yn diolch am eu mamau, yn rhyfeddu at wyrth y gwanwyn, ac yn dathlu gorfoledd y Pasg.

Croesawyd pawb yn gynnes a chyhoeddwyd yr emyn cyntaf gan Trystan Wyn a'r gweddill gan Cai, Erin a Trystan Bryn. Offrymwyd gweddi gan Cerys, a'r llefarwyr oedd Ifan, Llew a Siân J. Hefyd mwynhawyd unawdau swynol gan Helen, Lowri Elen, Trystan Bryn a Hari, adroddiadau gan Nia Wyn, Geinor, Lynwen a Nansi, ynghyd â grwpiau canu amrywiol. Cafwyd sgwrs gan Llinos, Ifan ac Erin yn seiliedig ar Sul y Palmwydd, a bu Trystan Bryn yn portreadu Peilat yn y 'Prawf'. Roedd pawb wrth eu bodd, yn ôl yr arfer, yn gwranddo ar y plant lleiaf yn rhoi o'u gorau, yn cynnwys datganiad hyfryd gan Siwan a Mabli.



Y plant yn dangos eu cardiau Pasg

Gwasanaethwyd wrth yr organ gan Ann a bu Llinos a Janet yn cyfeilio i'r plant. Diolchodd ein Gweinidog, y Parchedig Densil Morgan, i'r plant am godi ein calonnau yn rhyfeddol ac i'r rhieni am bob cefnogaeth. Wrth dalu teyrnged i Janet am ei gwaith caled, soniodd ei bod yn llwyddo i gynnal oedfa arbennig bob tro er ei bod yn amhosib cael y plant at ei gilydd. Mynegodd Janet ei

gwerthfawrogiad hithau i bawb am gymryd rhan ac am bob cydweithrediad mewn cyfnod anodd oherwydd bywydau prysur y plant.

Ar y diwedd roedd pawb yn uchel iawn eu canmoliaeth o gyfraniadau ardderchog y plant, y bobl ifanc a'r rhieni mewn oedfa fendigedig.

Janet Evans

Cofio'r Parchedig Llinos Ann Edwards

Mi fyddaf yn synhwyro ar adegau y breintiau hynny a ddaeth i'm rhan mewn bywyd, ac yn ddi-os ymhlith y pennaf rai ydyw'r fraint o gael adnabod pobl. Ond, yn sgil yr adnabod hwnnw, mi fydd pob ffarwelio yn anodd a phob atgof yn gysegredig.

Cafodd Llinos ei geni a'i magu yn Nhan Dderwen, Penffordd – hi a'i chwaer, Eira, a'i brawd, Delme. Roedd ei thad, Phillip Morris, yn bostman, ond bu yntau farw'n ifanc, a bu'n rhaid i'w mam, Margaret, fagu'r tri phlentyn bach ar ei phen ei hun. Aeth y tri i Ysgol Gynradd Penffordd i gychwyn. Ac yna pan oedd Llinos tua 10 mlwydd oed, symudodd y teulu i'r Groesffordd, ger Llandysilio, i fyw.

Yn Ysgol Ramadeg Arberth y derbyniodd Llinos ei haddysg uwchradd trwy gyfrwng y Saesneg ac mae'n siŵr fod y drefn honno wedi bod yn destun rhwystredigaeth iddi hi, o gofio'i hargyhoeddiad a'i hangerdd dros y Gymraeg. Roedd gan Llinos allu a chrebwyll a fyddai wedi ei galluogi i fynd yn ei blaen i astudio mewn prifysgol, ond yn Eisteddfod Crymych fe gyfarfu 'â phishyn mewn crys T gwyn a siaced ledr, ac yn gyrru motorbeic fflashi'. Robert oedd hwnnw, a dyna ddiwedd ar yr astudio – am dymor o leiaf.

Priododd y ddau yn ifanc iawn yng Nghapel Blaenconin ym mis Mehefin 1961, ac ymgartrefu yn Rock House, Llandysilio. Yno ganed eu merched: Gwen, Beth, a Delyth. Symudodd y teulu i fferm Tynewydd yn Llan-y-cefn ym mis Hydref 1965, ac yno ganed Non ddwy flynedd yn ddiweddarach, a deng mlynedd ar ôl geni Non ganwyd Islwyn. Roedd drws Tynewydd ar agor bob amser, a'r gegin yn aml yn fwrwm o fynd a dod ac yn llawn chwerthin a thynnu coes.

I Llinos, y cartref a'r aelwyd oedd ei byd, ac fe ymdrechodd hi a Rob yn galed i wella'u stad a chrafu bywoliaeth o'r fferm. Ar yr aelwyd honno fe rannodd Llinos i'w theulu y gwerthoedd a'r dylanwad oedd i gyfeirio'u bywydau. Plannodd ynddynt y dygnwch i ymroi ac i lwyddo yn eu gyrfaoedd.

Bu Llinos a Rob yn fawr eu cefnogaeth i'r gangen leol o Blaidd Cymru ac yn ymgyrchu dros yr iaith ar hyd y blynyddoedd. Roedd Llinos yn aelod selog o Ferched y Wawr, Maenclochog, a chwaraeodd ran hefyd yn sefydlu'r ysgol feithrin yn y pentref hwnnw.

Roedd cylch ffrindiau Llinos yn 'eclectic', a dweud y lleiaf, gan ei bod yn croesawu pob un yn ddiwahân i'r aelwyd, yn aml yn rhoi lloches i'r rheiny oedd wedi colli eu ffordd mewn bywyd.

Yn 1977 dechreuodd Llinos weithio ym mwthyn Penrhos, yn dangos ymwelwyr o gwmpas y tŷ unnos to gwellt. Roedd hi'n dwlu ar y lle, ac wrth ei bodd yn adrodd hanes Rachel a Maria i'r ymwelwyr. Roedd yn berson llengar iawn, a thra oedd yn disgwyl i ymwelwyr alw heibio byddai'n darllen yn frwd i lenwi'r amser. Dyna pryd yr aeth ati i gasglu syniadau am straeon byrion. Enillodd dlws E. Llwyd Williams yn Eisteddfod Maenclochog deirgwaith, am ysgrifennu stori fer. Bu Llinos hefyd yn gweithio yn Llyfrgell Arberth, ac yn ddiweddarach yng Nghanolfan Ymwelwyr Trefdraeth.

Yn gynnar yn y 90au symudodd Llinos a Rob ac Islwyn i fferm Cefnmwynant, y fferm y mae Islwyn a Cai, mab Beth, yn parhau i'w ffermio.

Trwy gydol y blynyddoedd hynny, roedd i Gapel Rhydwylym le amlwg yn ei hymwneud, a mawr fu ffyddlondeb y teulu mewn ysgol Sul ac oedfa, Cymanfa Bwnc a chyflwyniadau byrlymus y cyfnod hwnnw.

Cefais y fraint o fedyddio Llinos a'i derbyn i gyflawn aelodaeth yr eglwys yn Rhydwylym. Llinos oedd fy merch yn y ffydd a chefais yr hyfrydwch o'i hordeinio'n weinidog i Iesu Grist yn eglwys Henllan Amgoed ac i ofalaeth Cwm Miles, Capel Mair, Llanfallteg, Salem Meidrym a'r Bryn, Llangynin, a hynny ddydd Mercher, 21 Gorffennaf 1999.

Ddwy flynedd yn ddiweddarach ar 8 Medi 2001 cafodd ei sefydlu'n weinidog yn y Gelli-wen, Hermon a'r Star. A hithau'n dod o ganlyniad yn 'Star Preacher', chwedl y Parchg O. E. Roberts un o gyn-weinidogion yr eglwys.

Doedd hi ddim yn un am ffws a seremoni; roedd yna wyleidd-dra a diffuantrwydd yn perthyn iddi.

Ac mae englyn godidog W. Rhys Nicholas yn crynhoi ei hanian hithau i'r dim:

Gwên siriol oedd ei golud – a gweini'n
Ddi-gŵyn oedd ei gwynfyd;
Bu fyw'n dda, bu fyw'n ddiwyd
A lle bu hon, mae gwell byd.

Cofiw'n amdani gydag anwylddeb mawr, am ei gwasanaeth, ei hymroddiad a'i



ffydd angerddol mewn Arglwydd a Gwaredwr. Fe gofiwn am ei dygnwch a'i gwroldeb yng nghanol profiadau anodd bywyd.

Fe gofia rhai ohonom fod gyda hi a'i theulu ynghanol rhai o'r colledion garw a ddaeth i'w rhan: y tristwch enbyd o golli ei merch Beth ym mlodau ei dyddiau ac yna, ar drothwy'r Nadolig yn 2015, y tristwch wrth orfod ffarwelio â Rob, ei phriod.

Bu'r blynyddoedd diwethaf hyn yn rhai anodd hefyd wrth i'r gwyll fantellu dros feddwl effro a damsgel ar gellau'r cof. Diolchwn am y gofal a estynnwyd iddi yn ei lludded a'i breuder gan y rhai a fu'n gweini iddi ar ei haelwyd ac mewn cartref gofal.

Daethom â neges y Pasg yn atseinio yn ein clustiau, i adnewyddu ein ffydd ac i ymddiried o'r newydd yn Iesu Grist sy'n orchfygwr angau a bedd – yn Atgyfodiad a Bywyd: 'Y mae wedi cyfodi oddi wrth y meirw ac yn nawr y mae'n mynd o'ch blaen chi i Galilea, yno y gwelwch ef.' Dyna oedd neges yr angel o enau'r bedd gwag. Ac fe ddaw i Gwm Rhydwylym y prynhawn'ma i gyhoeddi na fedr marwolaeth fyth ddifa cariad, na dileu perthynas, na chwalu atgofion. Ni fedr dim oll – angau, einioes, uchder, dyfnder, pethau presennol, pethau i ddod – ein gwahanu ni o'i gariad ac yn y pethau hyn i gyd ein gwneud yn fwy na choncwerwyr. I ofal ac ymgeledd yr Un hwnnw sydd â'i law yn llywio ein hyfory yr ildiw'n ni mewn diolchgarwch ei henaid gwerthfawr hi.


Er llwyd yw'r aelwyd o'th ôl
A'n hiraeth yno'n eiriol,
Daw gwres dy ffein gwmpeini
A dawn dy athrylith di
I wasgar galar a'i gur
A'n dal ar waetha'n dolur. (P.M.T.)

Peter M. Thomas
(Crynodeb o'r deyrnged a gyflwynwyd yn yr arwyl ar 6 Ebrill)

Gair Duw ar Waith gan Denzil I. John

Casgliad o fyfyrddau yn canolbwyntio ar roi ein ffydd ar waith yn ymarferol mewn bywyd bob dydd

Pennod 21
Rhannu'r Gair ag eraill



Darlleniad: Nehemeia 8: 9–12

'Buont yn sefyll yn eu lle am deirawr yn darllen o lyfr cyfraith yr Arglwydd eu Duw.' (Nehemeia 9:3)

Gweddi

Diolch, Arglwydd, am y fraint o fedru darllen, ac am y cyfle i ddarllen dy Air yn ein hiaith ein hunain. Yn ein myfyrdd heddiw, diolchwn am waith yr eglwys yn trosglwyddo'r testun Beiblaidd mewn ieithoedd a chyfryngau cyfaddas â gofyn pobl. Helpa ni i fod yn gefnogwyr da ac yn gyflwynwyr effeithiol o'th wirionedd di i eraill. Amen.

Cyflwyniad

Rhan o waith amlwg pob eglwys yw tynnu sylw at y Beibl a chyflwyno neges y Beibl i bob llwyth, gwlad ac iaith. Bu Cymru yn ffodus fod yr ysgrhythur wedi cael ei chyfieithu i'r Gymraeg gan fawrion ymroddedig fel William Salesbury a William Morgan, a byddwn yn cofio gwaith y cyfieithwyr a'r esbonwyr hyd at heddiw. Pan ddarllenodd Esra yr ysgrhythur Iddewig i'r genedl oedd wedi dychwelyd o Fabilon yn y bumed ganrif cyn Crist, cafwyd effaith chwyldroadol ar y genedl honno. Ceir llu o hanesion am Air Duw yn dwyn pobl i feddwl o ddifrif am eu bywydau eu hunain a'u diffyg perthynas â Duw. Roedd y genedl wedi colli sylwedd ei hunaniaeth, yn wleidyddol ac yn grefyddol. Ar ôl y profiadau trawmatig yn yr Aifft, wrth ddychwelyd i Jerwsalem, roedd angen deffroad ysbrydol arnynt.

Cofir am effaith tystiolaeth Philip ar yr eunuch yn yr anialwch (Actau 8), ac mae pobl fel John Wesley a William Williams, Pantycelyn, yn enghreifftiau o bobl a gafodd dröedigaeth neu adnewyddiad ffydd wrth wrando ar bregethu'r Gair. Cred a phrofiad yr eglwys yw fod clywed y Gair yn cael ei ddarllen a'i gyhoeddi yn chwyldroi person fel ei fod yn edrych at Grist ac yn profi bywyd newydd.

Myfyrdd

Bydd darllen llenyddiaeth Cymdeithas y Beibl yn sôn am enghreifftiau cyfoes o ddiwygiadau. Pobl a dderbyniodd gopïau o'r Beibl yn eu hiaith chwarter canrif yn ôl yw trigolion Swaziland, gwlad yn ne-ddwyrain cyfandir yr Affrig sy'n ffinio â De'r Affrig a Mozambique. Cenedl fechan yw hon gyda 1.2 miliwn o bobl. Mae 85% ohonynt yn Gristnogion a thraean o'r boblogaeth yn ennill llai na phunt y dydd. Mesur o'i harswyd yw fod chwarter ei hoedolion yn byw gyda HIV a bod chwarter y plant o dan 17 oed yn amddifad.

Dyfynnir Albert, gŵr 54 oed a dderbyniodd Feibl yn 2016, yn dweud, 'Rwy'n byw am fod yr Arglwydd gyda mi, a phan ddarllenaf y Beibl hwn bydd fy enaid yn cael ei adnewyddu.'

Ar yr un daflen sonnir am greu fideo o hanesion Beiblaidd ar ffurf arwyddo ar gyfer y byddar. Dywedir gan Gymdeithas y Beibl fod hyn yn costio £900 y stori. Efallai y gallai eglwys roi nod iddi ei hun i

ariannu hyn yng nghorff blwyddyn a'i alw yn 'Air ar waith'.

Mae'r Beibl yn ffynhonnell gobaith iddynt ac apêl Cymdeithas y Beibl yw fod y sawl sy'n berchen ar Feiblau ac yn rhydd i addoli fel y mynnont yn estyn rhodd i gynorthwyo'r mentrau hyn sy'n dod â Gair Duw yn fyw i drigolion gwledydd fel Swaziland. Tybed a ydym ni'n darllen y Beibl yn gyson gan ofyn beth mae Duw yn ei ddweud wrthym? Nid mater o ddarllen yn unig ydyw ond agor ein heneidiau ein hunain i wrando ar Dduw yn siarad â ni.

Gweddi

Diolch, nefol Dad, am Gymdeithas y Beibl a'i gwaith chwyldroadol. Deisyfwn y bydd yn parhau i drosglwyddo'r Efengyl i iaith y gwledydd llai er mwyn iddynt brofi rhyfeddod dy wahoddiad i bobl gredu yn Iesu a'i fyw bob dydd. Amen.

Cwestiynau i'w hystyried

1. Roedd cynulleidfa Esra yn wylo a galaru. Beth oedd achos eu galar, a sut byddwn yn disgrifio'r profiad?
2. Os yw gwacter yn disgrifio un wedd ar alar, sut mae darllen Gair Duw yn helpu?
3. Adfer Jerwsalem oedd nod Esra a Nehemeia. Ai adfer ddoe neu adeiladu i'r dyfodol oedd yn bwysig iddynt?
4. Pa mor aml fyddwn ni'n darllen ein Beiblau, a beth fydd ei effaith arnom ni?
5. A fyddwn yn trysori'r Beibl fel gwnaeth Mari Jones ac Albert, sydd bellach yn 60 oed?

S4C

Dechrau Canu, Dechrau Canmol
Sul, 21 Ebrill am 7.30yh – Mwynder Maldwyn

Bydd Nia Roberts yn sir Drefaldwyn i ddysgu mwy am y paratodau at Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yng nghwmni Beryl Vaughan. Cawn fwynhau gwledd o ganu mawl o gymanfa gyhoeddi'r ŵyl yng Nghapel Heol China, Llanidloes.

radio
cymru

Caniadaeth y Cysegr
Sul, 21 Ebrill, am 7:30yb a 16:30yp

Rhaglen o ganu cynulleidfaol yng nghwmni Emllyn Davies, Pentyrch

Oedfa Radio Cymru
Sul, 21 Ebrill, am 12yp

Oedfa dan ofal Heulwen Davies, Llanelli


Myfyrio ar ein cenedlaetholdeb yn wyneb sefyllfa Israel a Phalesteina

Cymru annibynnol, lewyrchus, ddemocrataidd. Cymru Gymraeg. Dyfodol delfrydol i rai, efallai, ond a fyddai yna oblygiadau mwy cythryblus? Dyma'r cwestiwn sydd wrth galon nofel ddiweddaraf William Owen Roberts, *Cymru Fydd* (O'r Pedwar Gwynt, 2022).

Mae dwy wedd cyfrol Islwyn Ffowc Elis, *Wythnos yng Nghymru Fydd*, y Gymru Gymraeg ddiwylliedig a'r Gymru ddi-Gymraeg, ddirywiedig, yn bodoli ochr yn ochr yma. Dilynwn hanes dau brif gymeriad ym mlynnyddoedd olaf yr unfed ganrif ar hugain, cyfnod sy'n gweld y Gymru annibynnol yn ffynnu ar draul ei chymdogion drwy reoli'r cyflenwad dŵr wrth i'r ddaear grasu.

Myfyriwr yw Koi Vallance, ac mae'n astudio yng Ngorllewin Croesoswallt, un o'r maestrefi gor-boblog, budr, lle y corlannwyd y boblogaeth Gymreig unoliaethol yn dilyn y rhyfel annibyniaeth. Yn anochel, o dan ddylanwad ei fam, Minna, a fu'n aelod blaenllaw o fudiad terfysgol, a'i gariad, Xennie, tynnir Koi'n ddyfnach i'r gwrthryfel yn erbyn Gwladwriaeth Cymru.

Ar begwn arall cymdeithas, mae Hugan lfor yn swyddog yng ngwasanaeth cudd-wybodaeth gwladwriaeth Cymru, ac yn chwaer i Echni Caddel, gwleidydd yr un mor uchelgeisiol â'i gŵr, Dewi. Anesmwythir Hugan gan dueddiadau cynyddol asgell dde ei chwaer a'i brawd yng nghyfraith,



wrth iddynt ennyn ymchwydd gwleidyddol cenedlaetholgar, efengylaidd ar lawr gwlad, a manteisio arno. Yn sgil ei weithredoedd gwrthryfelgar, ddaw Koi i sylw Hugan a Rhys Ddwfn. Cawn archwiliad dirdynol o natur grym wrth iddo geisio ymdopi â'r chwalfa sy'n dod i'w ran, a'r cyfaddawdu a orfodir arno. Brwydro yn erbyn grymoedd tu hwnt iddi mae Hugan hefyd, wrth iddi ymlafnio i warchod y broses heddwch rhwng Gwladwriaeth Cymru a'r unoliaethwyr, a ffrwyno mympwyon mwyaf eithafol ei brawd yng nghyfraith, serch ei greddfau cenedlaetholgar hithau.

Fe sylwith darllenwyr craffach mai hanes gwleidyddol Israel a Phalesteina sydd mewn golwg yn y gyfrol hon, ond try'r awdur y sefyllfa ben i waered, a gofyn i ninnau, y gynulleidfa Gymraeg, gydymdeimlo â chymeriadau fyddai fel arall yn wrthun, a myfyrio ar rai agweddau ar wleidyddiaeth y wlad hon. Ni chaiff crefydd yr un sylw ag yng nghyfrol Islwyn Ffowc, ond erys y tyndra rhwng gwerthoedd seciwlar, rhyddfrydol a gwerthoedd Cristnogol, efengylaidd yn gefnlen i'r sefyllfa wleidyddol.

Nofel uchelgeisiol yw hon, o ran hyd, rychwant amser, cast y cymeriadau a'r themâu y mae'n ymdrin â hwy, ond llwydda ar y cyfan i ddal sylw'r darllenydd. Ceir ambell gyffyrddiad digri hefyd, rhag i drymder y cynnwys fynd yn llethol. Serch hynny, erys gwendidau. Nid archwiler sawl edefyn yn llawn, megis y berthynas rhwng dynoliaeth a deallusrwydd artifisial, ac ymwneud brawd Echni a Hugan â'r mudiad heddwch. Yn wir, mae'r penodau hynny'n ymddangos yn amherthnasol, braidd, i weddill y nofel. Anodd weithiau oedd cadw trefn ar y rhestr faith o enwau hefyd. Rhaid nodi y gallai cynnwys y gyfrol hon beri tramgwydd i rai, ond dyma gyfrol wefreiddiol. Un sy'n pryfocio a herio, ond eto un hynod o ddarllenadwy. Braff iawn oedd darllen nofel fawr, ym mhob ystyr y gair, yn Gymraeg.

Gareth Hanahoe
Yr Wyddgrug

O Gefn Gwlad

Neges yr epigramau

Morol am raglen ar y Parch. Tudor Davies ar gyfer ein Cyfarfod Dosbarth yr oeddwn – Tudor, y Gweinidog Wesle o Wyddelwern, yr un ardal â fi, ac un a adwaenwn yn dda; awdur yr emyn adnabyddus: 'Cofia'r newynog, nefol Dad', emyn a genir cyn amlod â'r un arall yn ein gwasanaethau. Mae ganddo saith emyn arall yn *Caneuon Ffydd*.

Gan imi fynychu ei arwyl yn Eglwys Sant Paul, Aberystwyth, yn 2010, mae gen i daflen ei angladd, ac arno y mae'r cwpled yma:

'Llyw fy oes fu llaw fy lôr,
A'i Efengyl, fy angor.'

Mae o'n gwpled da, 'dech chi ddim yn meddwl? Ac yn ddisgrifiad perffaith o'r Tudor yr oeddwn i'n ei adnabod.

Ond does dim enw awdur wrtho, ac felly'n naturiol mi feddylais mai Tudor ei hun a'i sgrifennodd. Ond os felly, pam y tybiwyd fod angen dyfynodau? Problem! Felly, rhag imi ryfygu ac efallai nodi rhywbeth sy'n gwbl anghywir, dyma droi i gyfrol hwylus

iawn i chwilio amdano, sef *Y Flodeugerdd o Epigramau Cynganeddol* a gasglwyd ac a olygwyd gan Alan Llwyd. Bùm drwy'r gyfrol yn eitha gofalus ond heb ganfod y cwpled sydd ar y daflen. Mae hynny'n awgrymu mai cwpled heb ei gyhoeddi ydyw, gan fy mod yn eitha siŵr y byddai Alan Llwyd wedi ei gynnwys pe bai'n gwybod amdano. Gallaf felly o leia awgrymu falle mai Tudor Davies ei hun yw ei awdur.

Chwilio ofer? Na, dim yn hollol, gan imi ddigwydd sylwi ar ddau epigram neu gwpled arall diddorol ar yr un thema. Rhyfedd yn wir imi ddigwydd taro ar y ddau arbennig yma o blith cannoedd o rai eraill a gynhwyswyd yn y gyfrol. Ond felly bu hi.

Dyma un:

Mae gorofal am grefydd
Mor ffôl ag yw amau'r ffydd.

Hm, tipyn o sinig meddech chi, un oedd yn gwawdio'r rhai y mae crefydd yn air ar eu gwefusau'n aml, a chonsŷrn amdani yn llanw eu bywydau. Rhai y cyfeiriwyd atyn nhw gan Abiah Roderick sy'n 'mynd trwy'r gwynt a'r glaw', i oedfaon, waeth beth fo'r tywydd, y rhai y mae gofalu am yr achos lleol bron yn obsesiwn arnyn nhw. Hawdd iawn yw gwneud hwyl am eu pennau gan un nad yw'n malio dim am grefydd.

Ond na, arhoswch funud. Yr awdur yw neb llai na'r Parch. William Morris, Prifardd, cyn-Archdderwydd, Gweinidog, ac un o bregethwyr mwya amlwg ei enwad yn ei ddydd. Ac o sylwi'n fanwl, nid gwawd sydd yn y cwpled ond datganiad eitha pwysig, ac awgrym cry' mai amheuwyr sydd o hyd yn sôn am grefydd, fel tase'r ffydd yn eu poeni yn hytrach nag yn eu cynnal. Y rhai sydd efallai'n llefaru'n gyson: 'Anghrediniaeth, gad fi'n llonydd!'

Beth am yr ail gwpled dynnodd fy sylw? Gweinidog arall – Y Parch. O. M. Lloyd – yw awdur hwn:

Llong heb angor ar fôr fydd
Y gŵr ifanc digrefydd.

Onid dyna'r ateb i'r rhai sy'n gorofalu am grefydd, yn ôl William Morris? Yn hytrach na sôn am grefydd drwy'r amser, neu'n aml iawn beth bynnag, ei derbyn yn sail i fywyd? Ei byw, nid ei maldodi fel anifail anwes.

Yn wir, y mae'r tri chwpled gyda'i gilydd yn ddarlun go dda o'r hyn yw crefydd, o bwysigrwydd y ffydd, a'i heffaith a'i dylanwad ar bobol. Ac mi lwyddais innau – wrth sôn am weinidog Wesle, gweinidog Methodus, a gweinidog yr Annibynwyr – i bron gadw'r ddysgl enwadol yn wastad!

Elfyn Pritchard

Tro i Lanfyllin

Un o drefi hyfrytaf canolbarth Cymru yw Llanfyllin. Derbyniodd ei siarter mor bell yn ôl â 1294, a hi yw'r dref fwyaf o ran poblogaeth yng ngogledd sir Drefaldwyn. Gallaf ddweud fy mod yn dra hoff o'r dref a'n bod wedi cael cyfle fwy nag unwaith i gymryd rhan yn Llanfyllin.

Trefnais gynhadledd yn enw Cymdeithas Dydd yr Arglwydd yng Nghapel Pendref, a chael ein swyno gan y Dr Rhiannon Ifans, Penrhyn-coch, ger Aberystwyth, yn darlithio ar Ann Griffiths, yr emynyddes a roddodd Lanfyllin ar fap crefyddol Cymru. Daeth cynulleidfda dda ynghyd. Pleser arall oedd cymryd rhan yn oedfa ordeinio'r Parchedig Gwyndaf Richards, sydd wedi gwasanaethu mor gydwybodol yn Llanfyllin, Llanrhaeadr-ym-Mochnant a'r cyffiniau. Treuliodd ef flynyddoedd yn Lerpwl a bu'n flaenor cydwybodol yng Nghapel Bethel, Heathfield Road, cyn troi yn ôl i'w gynefin, a'i gyflwyno'i hun i enwad yr Annibynwyr, gan wasanaethu hefyd rai o gapeli'r Wesleaid a'r Presbyteriaid. Yn yr oedfa ordeinio, cawsom ein harwain gan yr Athro Euros Wyn Jones, Rhos-meirch, Môn. Roedd ef yn ddiwinydd a chyfathrebwr godidog, a bu ei ymadawiad sydyn rai blynyddoedd yn ôl yn golled anfesuradwy i'r Annibynwyr.

Maentumir mai Pendrefyw un o gapeli hynaf yr Annibynwyr gan iddo gael ei adeiladu yn y flwyddyn 1701. Yn anffodus, fe'i llosgwyd yn ulw gan y Jacobitiaid yn 1715. Gwrthwynebai'r Jacobitiaid hawl y llinach Hanoferaidd i orsedd frenhinol Prydain. Derbyniai'r mudiad hwn gefnogaeth ymysg mân offeiriaid a'r boneddigion Toriaidd. Hwy a sefydlodd Cylch y Rhosyn Gwyn yng ngogledd-ddwyrain Cymru yn 1710, a chafwyd hwb yn fuan gan un o elynion pennaf y Diwygiad Methodistaidd, Syr Watcyn Williams Wynn o Wynnstay. Bu Howell Harris o dan ei lach droeon.

Ar ôl llosgi Capel Pendref gan y dorf ddilywodraeth, bu'n ofynnol i'r Senedd gymryd sylw a mynd ati i dalu am ailadeiladu'r capel yn 1717. Ehangwyd ef ymhellach yn 1829 a gwelir y datganiad oddi mewn, 'This is none other than the house of God'. Byddai Ann Griffiths o Ddolwar-fach yn barod iawn i ategu hynny, fel y byddai gŵr arbennig arall, John Bryan (1770–1856), gweinidog Wesleaid a chenhadwr brwdfrydig.

Yn Llanfyllin y ganwyd ef ac yn y dref y treuliodd flynyddoedd ei febyd, yn derbyn gofal arbennig gan ei ewythr, John Rogers. Tra oedd yn byw yn Llanfyllin, gofidiai fod drygioni fel petai'n cael yr oruchafiaeth ar ddaioni. Ond ar ôl iddo ef adael Llanfyllin yn ddeuddeg oed am Groesoswallt y daeth

y tân diwygiadol i Lanfyllin. Yn wir, yn 1798 cafodd ef ei hun dröedigaeth grefyddol, a hynny ym mis Rhagfyr 1798, ac ymunodd â'r Methodistiaid Calfinaidd Cymreig yng Nghaer. Ychydig fisoedd yn ddiweddarach, daeth o dan hudoliaeth yr Eglwys Fethodistaidd yng nghapel yr Octagon yn y ddinas.

Yn ystod y ddwy flynedd ddilynol, daeth i gefnogi gweithgarwch gweinidogaethol Owen Davies a John Hughes, y ddau genhadwr a anfonwyd gan y Gynhadledd Wesleaid i ogledd Cymru yn y flwyddyn 1800. Bu ef ei hun yn weinidog ymysg alltudion yn Lerpwl, Manceinion a Leeds. Yno yr ymsefydlodd fel groser yn 1824 ac yna yn 1831 yng Nghaernarfon gyda'r un dyletswyddau. Bu'n weithgar yno fel pregethwr hyd ei farwolaeth, bron, ar 25 Mai 1856. Bu'n gyfrwng i ennill eneidiau lawer i'r eglwys, a chyfieithodd lawer o emynau'r brodyr Wesley o'r Saesneg i'r Gymraeg.

Nid oes gennyf dystiolaeth iddo gyfarfod ag Ann Thomas, yr emynyddes a gafodd ei thröedigaeth yn Llanfyllin wrth wrando ar y Parchedig Benjamin Jones o Gapel Penlan, Pwllheli. Canlyniad ei bregethu ef yn yr awyr agored yn Llanfyllin oedd ennill Ann Thomas i'r gorlan anghydfurfiol. Bodlonodd hi i 'ymofyn am grefydd yn lle dilyn gwagedd'. A gwagedd, yn ei thyb hi, oedd y ddawns. Priododd Ann Thomas â John Griffiths, un o arloeswyr y Mudiad Methodistaidd, ac ar ôl geni ei phlentyn, Elizabeth, galwyd ar weinidog Capel Pendref, sef Jenkin Lewis, i ddod i ffermdy Dolwar-fach i fedyddio'r newydd-anedig. Dyna ddiwrnod i'w gofio ar 13 Gorffennaf 1805. Ond ychydig wythnosau yn ddiweddarach, bu farw'r fam a'r ferch, er siomedigaeth i Ruth Evans, John Hughes, Jenkin Lewis a'i phriod, John Griffiths, a'r holl deulu galarus.

Symudiad pwysig yn hanes Llanfyllin oedd dyfodiad Academi'r Annibynwyr yno o dan ofal y diwinydd galluog, y Parchedig Ddr George Lewis. Y dewis oedd symud yr Academi o Wrecsam i Lanfyllin neu Lerpwl. Llanfyllin oedd y dewis terfynol, a derbyniwyd nifer o fechgyn talentog i'r Academi, gan gynnwys mab gweinidog yr Hen Gapel yn Llanbryn-mair, sef Samuel Roberts ('S.'). Tra oedd yn yr Academi yn Llanfyllin, gofalai Dr George Lewis am aelodau Capel Pendref hefyd. Lleolid yr Academi mewn tŷ yn y dref, ond yn 1821 symudwyd yr Academi i'r Drenewydd, er cryn golled i'r masnachwyr a'r Anghydfurfwr yn Llanfyllin.

Mae i'r capel pwysig hwn ochr glasurol yn wynebu ar y sgwâr, â phedair ffenestr a dau ddrws. Yn oes Victoria yr oedd llywyrch mawr ar yr achos, gyda 200 yn gysyllt yn yr ysgol Sul a thros 400 yn oedfa'r hwyr; roedd llai yn oedfa'r bore, ond dros y cant ran amlaf.

Cynnyrch nodedig Pendref i'r byd cenhadol, heb amheuaeth, yw Susannah J. Ellis. Pan glywais hi yn Ysgol Haf yr Ysgol Sul ym mhymdegau'r ugeinfed ganrif, adnabyddid hi fel Susannah Rankin, cenhades i Bapwagini Newydd oddi ar 1926. Yn Llanfyllin y ganed hi, ar 26 Tachwedd 1897, a daeth o dan ddylanwad capel ac addysg Pendref. Cafodd ei hordeinio yn Eglwys Pendref ym mis Hydref 1925 ar ôl blynyddoedd o astudio yng Ngholeg Prifysgol Cymru, Bangor, a Choleg Bala-Bangor. Dechreuodd ddarlithio yng Ngholeg Diwinyddol Lawes, gan hyfforddi ei hun yn yr iaith Motu.

Yn 1928, aeth hi a chenhades arall i efengylu i ardal anghysbell ac anodd, Boku-Kapakapa yn y mynyddoedd. Gwaith mentrus, arwrol oedd hwn, a symudwyd i Saroa, ardal arall anodd lle nad oedd neb wedi clywed am yr Arglwydd Iesu Grist. Pobl gyntefig y casglwyr penglogau oedd y brodorion, a hwy a enillwyd i'r ffydd gan y Gymraes o Lanfyllin. Yr adeg hon, priododd â gŵr eneiniedig, Robert Rankin. Am 26 mlynedd bu'r ddau'n cyd-fyw ac yn cydweithio'n effeithiol, gan oleuo meddyliau pobl y mynydd-dir am y tro cyntaf erioed i greu ac anwylo Iesu Grist yn Geidwad.

Yn 1950, daethant yn ôl i Gymru, a dyna pryd y clywais amdanynt. Pan agorwyd Coleg Diwinyddol Chalmers, cafodd y ddau eu penodi i ofalu am y sefydliad, ef yn brifathro a hithau'n athro. Pan fu farw ei phriod yn 1960, cymerodd hi ei gyfrifoldebau fel prifathro. Rhyddhawyd hi yn 1964 a daeth yn gyfarwyddwr cyrsiau i weinidogion yno. Bu'n brysur yn cyfieithu o'r Gymraeg a'r Saesneg i'r iaith Motu. Siaredir 14 iaith yno, ond iaith swyddogol y wlad ar ôl ennill ei hannibyniaeth ydyw Motu. Cyflwynodd Prifysgol Cymru MA er anrhydedd iddi yn 1973 am ei chyfraniad helaeth i bobl Papwagini Newydd. Roedd ganddi chwaer yn byw yn Awstralia, ac yno y bu hi farw ar 24 Gorffennaf 1989. Roedd yn genhades unigryw a fagwyd yn Llanfyllin, a chynnyrch Capel Pendref ydoedd ar hyd ei oes.

Adeilad brics hardd yw Eglwys Anglicanaidd Sant Myllin, un o'r ychydig eglwysy sydd o faintioli anghyffredin y ddeunawfed ganrif. Tŷ hardd arall o'r un ganrif yw Manor House, a adeiladwyd yn 1737. Gwelir llawer o ffermdai hynafol ar gyrion y dref, fel Bodfach, hen gartref teulu pwysig y Kyffiniaid, a'i erddi rhododendron.

Gŵr arall a fu'n gweithio yn Llanfyllin, ac yn wir a anwyd rai milltiroedd i ffwrdd, oedd David Thomas, Nantlle a Bangor. Roedd yn ffrind mawr i E. Tegla Davies, a bu'n olygydd godidog ar *Lleufer*, cylchgrawn Cymdeithas Addysg y Gweithwyr, y WEA.

O gofio'r cyfan hyn, mae Llanfyllin yn haeddu ymweliad arall yn 2024, mae'n siŵr, gan fod cymaint o hanes i'r dref bwysig hon.

D. Ben Rees

Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru. Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr *Cenn@d* yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru. Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:

huw@cennad.cymru | aled@ysgolsul.com

www.cennad.cymru



CennadCymru



@CennadCymru